WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2018 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**


Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 998A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol gan David Wilson, Terry Lewis, Nathan Couch, Dave Thomas a Richard Harries

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o gyfrifon 6

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18 6

Rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yn natganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd 8

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau 8

Er bod y Bwrdd Iechyd wedi sefydlu'r trefniadau angenrheidiol i gefnogi llywodraethu da, mae mwy i'w wneud i sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol â'r bwriad 9

Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir sy'n cael ei chefnogi gan broses gynllunio effeithiol, ac mae gwaith yn parhau i ddiweddaru cynlluniau ar gyfer ailgynllunio'r gwasanaeth 11

Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o reoli adnoddau'n effeithiol a dull da sy'n datblygu o wella cynhyrchiant, er nad yw rhai elfennau'n ddigon strategol neu fanwl bob tro ac mae angen gwella perfformiad yn erbyn rhai targedau allweddol 12

Mae fy rhaglen waith ehangach yn nodi bod y Bwrdd Iechyd yn ymateb i risgiau a chyfleoedd, ond ei fod yn dal i wynebu sawl her 15

Ar y cyfan, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol fel elfen o'i drefniadau gwrth-dwyll ond nid yw wedi adolygu'r holl ddata cyfatebol a argymhellwyd eto 17

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 18

Atodiad 2 – ffi archwilio 19

Atodiad 3 – risgiau archwilio sylweddol 20

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2018. Ymgymerais â'r gwaith hwnnw er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â nhw wedi cael eu cymhwyso yn unol â'r dibenion bwriadedig ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a

c) bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

2 Rwyf wedi adrodd fy nghanfyddiadau o dan y penawdau canlynol:

- Negeseuon allweddol
- Archwiliad o gyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

3 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r adroddiad archwilio blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

4 Rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2018.

5 Mae Atodiad 3 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol sylweddol a amlygwyd yng Nghynllun Archwilio 2018 a sut yr aed i'r afael â nhw yn ystod yr archwiliad.

6 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad wedi'i rannu ag aelodau'r Pwyllgor Archwilio a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 27 Mawrth 2019. Anogwn y Bwrdd Iechyd yn gryf i drefnu cyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

7 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod y gwaith archwilio mae fy nhîm wedi ei gyflawni dros y 12 mis diwethaf.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o gyfrifon

8 Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2017-18 y Bwrdd Iechyd, gan ddod i'r casgliad bod y cyfrifon wedi'u paratoi'n briodol ac yn sylweddol gywir.

9 Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i archwilio'r cyfrifon.

10 Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2017-18.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

11 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig 2018 yn y Bwrdd Iechyd wedi dod i'r casgliad:

- er bod y Bwrdd Iechyd wedi sefydlu'r trefniadau angenrheidiol i gefnogi llywodraethu da, mae mwy i'w wneud i sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol â'r bwriad;
- mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir sy'n cael ei chefnogi gan broses gynllunio effeithiol, ac mae gwaith yn parhau i ddiweddaru cynlluniau ar gyfer ailgynllunio'r gwasanaeth ac
- mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o reoli adnoddau'n effeithiol a dull Da sy'n datblygu o wella cynhyrchiant, er nad yw rhai elfennau'n ddigon strategol neu fanwl bob tro ac mae angen gwella perfformiad yn erbyn rhai targedau allweddol.

12 Mae adolygiadau o wasanaethau gofal sylfaenol, rheoli ystadau a gwaith rhanbarthol mewn perthynas â'r Gronfa Gofal Integredig wedi dod ar draws rhai elfennau o arferion da ynghyd â chyfleoedd i gryfhau trefniadau ar gyfer sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau.

13 Ar y cyfan, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol fel elfen o'i drefniadau gwrth-dwyll ond nid yw wedi adolygu'r holl ddata cyfatebol a argymhellwyd eto. Mae hyn yn hynod bwysig o ystyried digwyddiadau cofnodion gwefan y Fenter lle'r oedd gan aelodau staff fuddiant mewn cwmnïau nad oedd wedi'u datgan i'r Bwrdd Iechyd.

14 Ystyrir y canfyddiadau hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o gyfrifon

15 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

16 Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol a gofynion eraill ac yn cydymffurfio â gofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- a yw'r wybodaeth arall a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol (yr adroddiad blynyddol fel arfer) yn gyson â nhw; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol.

17 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

### Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18

18 Cyhoeddais farn ddiamod bod datganiadau ariannol 2017-18 y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn sylweddol gywir. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau sylweddol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon.

19 Nid oes gennym unrhyw bryderon am elfennau ansoddol eich arferion cyfrifo a'ch adrodd ariannol. Gwelsom fod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy, yn berthnasol ac yn hawdd i'w deall. Daethom i'r casgliad bod polisïau ac amcangyfrifon cyfrifo'n briodol a datgeliadau datganiadau ariannol yn ddiduedd, teg a chlir.

20 Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, cynhaliwyd y broses cyfrifon ac archwilio yn ddidrafferth gydag ymgysylltu rhagorol. Derbyniwyd gwybodaeth yn brydlon gyda phob cymorth ac ni chawsom ein cyfyngu yn ein gwaith. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd â Thîm Cyllid y Bwrdd Iechyd yn ystod yr archwiliad terfynol i adolygu cynnydd a datrys unrhyw faterion a oedd yn codi ar unwaith. Parhawyd hefyd i ddatblygu ein dull archwilio a chynhaliwyd profion archwilio cynnar o drafodion 'yn ystod y flwyddyn'

pan oedd hynny'n bosibl. Paratôdd y Tîm Cyllid gynllun cau manwl ar gyfer 2017-18 a oedd yn ymgorffori ein gofynion archwilio a manylion y papurau ategol. Parhaodd y dull hwn i gryfhau'r broses cynhyrchu datganiadau ariannol gan helpu i fodloni'r amserlen glirio dynn. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd i adolygu'r broses a phrofiadau eleni i nodi unrhyw feysydd lle gallwn ddatblygu ymhellach a mireinio'r gweithdrefnau a sicrhau y gellir dwyn unrhyw wersi a ddysgwyd ymlaen i 2018-19.

21 Adolygais y rheolaethau mewnol hynny a oedd yn berthnasol i'r archwiliad yn fy marn i er mwyn fy helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risg o gamddatganiad sylweddol yn y cyfrifon. Ni chawsant eu hystyried gennyf at ddibenion mynegi barn ar eu heffeithiolrwydd o ran gweithredu rheolaeth fewnol. Ni nododd fy adolygiad unrhyw ddiffygion sylweddol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd.

22 Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 29 Mai 2018. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol yn yr adroddiad hwnnw.

### Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi a rhoi sylwadau ar y materion allweddol a nodwyd

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol, sy'n dal heb eu cywiro. |
| Camddatganiadau wedi'u cywiro | Roedd nifer o gamddatganiadau sydd wedi'u cywiro gan reolwyr. Fodd bynnag, nid oeddem yn ystyried bod angen tynnu eich sylw atynt fel rhan o'ch cyfrifoldebau am y broses adrodd ariannol. Yn ogystal ag ambell ddatgeliad ychwanegol, roedd y cywiriadau ariannol yn gymharol fach ac nid ydynt wedi effeithio ar y gwarged yr adroddwyd arno. |
| Materion sylweddol eraill | Er nad oedd anawsterau arwyddocaol, nodwyd bod Archwiliad Mewnol wedi adrodd ar nifer o wendidau system sy'n gofyn am gamau rheoli. |

23 Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais adolygiad o'r ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad fod y wybodaeth gyfunol gyfatebol yn cyd-fynd â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2018 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi'n unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

24 Cynhaliwyd fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol yn ystod mis Medi 2018. Cyflwynais fy Adroddiad ar Archwilio Datganiadau Ariannol i'r Bwrdd Iechyd ar 28 Tachwedd 2018. Cyhoeddais farn archwilio ddiamod ac nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol i adrodd arnynt.

### Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra’r trafodion ariannol yn natganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd hefyd

Llwyddodd y Bwrdd Iechyd fantoli’r gyllideb am y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra trafodion ariannol yn ei gyfrifon ar gyfer 2017-18

25 Rhaid i drafodion ariannol y Bwrdd Iechyd gyd-fynd â’r awdurdodau sy’n eu llywodraethu. Rhaid bod ganddo’r pwerau i dderbyn yr incwm a gwneud y gwariant sydd ganddo. Mae ein gwaith yn adolygu’r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw elfennau incwm neu wariant perthnasol nad oes gan y Bwrdd Iechyd yr hawl i’w derbyn neu eu gwneud.

Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd i fantoli’r gyllideb a bod ganddo gynllun tair blynedd wedi’i gymeradwyo ar waith ac nad oedd unrhyw broblemau eraill yr oedd angen tynnu sylw atynt, ni roddwyd unrhyw adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd

26 Mae gennyf y pŵer i roi adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â’m barn lle rwyf eisiau tynnu sylw at broblemau. Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i fodloni ei ddyletswyddau ariannol i fantoli’r gyllideb (fel yr amlinellir uchod) a rhoi cynllun tair blynedd wedi’i gymeradwyo ar waith, ac nad oedd unrhyw faterion eraill yn gwarantu adroddiad, nid wyf wedi cyhoeddi adroddiad o sylwedd ar y cyfrifon.

27 Fel y manylir uchod, mae’r Bwrdd Iechyd wedi bodloni ei ddyletswydd ariannol i fantoli’r cyfrifin dros y cyfnod tair blynedd 2015-16 i 2017-18 ac adroddodd warged argadwedig o £509,000 ar gyfer y cyfnod hwn.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodus rwydd o ran y defnydd o adnoddau

28 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud gwaith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd;
- adolygu ymagwedd y Bwrdd Iechyd at gynllunio strategol;
- archwilio’r trefniadau sydd ar waith i reoli cyllid, gweithlu, asedau a phrosesau caffael y Bwrdd Iechyd;

- gwaith ar ddefnydd penodol o adnoddau ar wasanaethau Gofal Sylfaenol, Ystadau a gwaith partneriaeth ranbarthol;
- adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio allanol; ac
- asesu'r defnydd o ymarferion paru data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI).

29 Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn i'w gweld isod.

## Er bod y Bwrdd Iechyd wedi sefydlu'r trefniadau angenrheidiol i gefnogi llywodraethu da, mae mwy i'w wneud i sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol â'r bwriad

30 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, y ffordd mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn cyflawni eu busnes ac i ba raddau mae strwythurau sefydliadol yn cefnogi llywodraethu da ac atebolrwydd clir. Edrychais hefyd ar y wybodaeth mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn ei derbyn i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad a monitro cyflawniad amcanion sefydliadol. Deuthum i'r casgliadau canlynol.

31 **Ar y cyfan, mae'r trefniadau ar gyfer cefnogi effeithiolrwydd y bwrdd a'r pwyllgorau'n dda gyda gwaith parhaus i gryfhau gwaith tîm ar y bwrdd.** Canfu fy ngwaith bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu effeithiolrwydd ei Fwrdd a'i bwyllgorau'n flynyddol ac wedi defnyddio canlyniadau arolwg eleni fel rhan o sesiwn datblygu'r bwrdd ac wedi datblygu cynllun gweithredu i lywio rhaglen ddatblygu.

32 Ers fy Asesiad Strwythuredig yn 2017, mae'r Bwrdd Iechyd wedi profi trosiant o aelodau annibynnol ac yn ystod 2018, maent wedi bod yn setlo i mewn i'w rolau newydd a datblygu cysylltiadau a fydd yn hollbwysig i wneud trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn gwbl effeithiol. Mae aelodau annibynnol wedi gallu defnyddio'r rhaglen sefydlu genedlaethol ac mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu cyfleoedd hyfforddiant amrywiol ar gyfer aelodau annibynnol, gan gynnwys rhaglen sefydlu, hyfforddiant aelodau bwrdd Cymru gyfan a sesiynau datblygu bwrdd y Bwrdd Iechyd ei hun. Fodd bynnag, roedd gan aelodau annibynnol a ymatebodd i'n harolwg aelodau bwrdd farn gymysg am eu rhaglen sefydlu, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth a roddwyd iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau a'r rhaglen ar gyfer datblygu'r bwrdd.

33 Mae'r Cadeirydd yn arfarnu'r aelodau annibynnol i bennu amcanion personol ac i nodi anghenion hyfforddiant a datblygu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu rhaglen hyfforddi a datblygunewydd ar gyfer y bwrdd i fynd i'r afael ag anghenion dysgu. Mae pwyllgorau'r Bwrdd Iechyd yn perfformio'n effeithiol, gyda threfniadau da ar waith i uwchgyfeirio materion i'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae yna le i sicrhau cyfathrebu systematig rhwng pwyllgorau a gwella dealltwriaeth ymysg aelodau'r bwrdd am rolau a chyfrifoldebau'r pwyllgorau.

34 **Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd i ddatblygu fframwaith sicrwydd ar gyfer y bwrdd ac mae'r gwaith wedi dechrau i wella a chryfhau'r trefniadau rheoli risg**. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd gyda chymorth gan y tîm Archwilio a Sicrwydd[1]. Mae'r gwaith yn parhau i fapio risgiau strategol a'r ffynonellau sicrwydd gofynnol o fewn BAF, ynghyd ag ailddatblygu'r datganiad ar barodrwydd i gymryd risgiau ar ôl terfynu'r BAF. Mae'r trefniadau rheoli risg strategol yn addas i'r diben ar y cyfan ac mae'r gwaith wedi dechrau ar eu cryfhau ymhellach. Mae gwelliannau o ran adrodd ar risg ond nodaf nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi egluro'r rolau ar gyfer coladu a monitro risgiau corfforaethol a chlinigol eto a sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau a gallu i arolygu rheolaeth risg ledled y sefydliad.

35 **Mae rheolaethau mewnol yn eu lle ac mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau elfennau o'i drefniadau archwilio clinigol**. Mae busnes y Bwrdd Iechyd yn cael ei gynnal yn unol â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog diweddaraf[2], Rheolau Sefydlog[3] a Chynllun Dirprwyo cyfredol, sy'n nodi rolau, cyfrifoldebau a lefelau awdurdod. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n arolygu a monitro cydymffurfiaeth â nhw. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Gofrestr Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd hefyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro perfformiad ariannol a gweithredol yn rheolaidd. Mae ei drefniadau rheoli perfformiad yn gadarn, ac mae'n cymryd camau i fynd i'r afael â pherfformiad gwael. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Gwella drafft[4], ond nododd fy ngwaith ffyrdd y gellid gwella ei drefniadau llywodraethu ansawdd, megis yn ymwneud â hanesion cleifion, ymweliadau aelodau annibynnol, cwynion ac archwilio clinigol.

36 Mae'r Pwyllgor Archwilio'n arolygu cynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed gan Archwiliadau Mewnol ac Allanol. Canfu fy ngwaith bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol i fynd i'r afael ag argymhellion heb eu gweithredu gyda gwaith parhaus i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael ag argymhellion yn brydlon. Gwelais hefyd fod y Bwrdd Iechyd wedi rhoi proses newydd ar waith i olrhain argymhellion a wnaed gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill fel Arolygiaeth Iechyd Cymru i alluogi'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion i fonitro cynnydd.

37 **Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i gryfhau seiberddiogelwch a chydymffurfio'n llawn ag amseroedd ymateb ar gyfer ceisiadau gwybodaeth statudol.** Gwelais fod cydymffurfiaeth â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth yn gwella ac ar hyn o bryd mae'n 89%, ond mae hynny'n dal i fod yn is na tharged Cymru gyfan o 95%. Darparodd y Bwrdd Iechyd adnoddau ychwanegol i'w uned llywodraethu gwybodaeth o ganol 2018 ymlaen i gryfhau'r trefniadau cyfrinachedd

[1] Mae gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG yn darparu archwiliad mewnol dwyieithog, archwiliad arbenigol a gwasanaethau ymgynghoriaeth i'r GIG cyfan yng Nghymru.

[2] Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar gyfer Byrddau Iechyd – Mawrth 2014

[3] Rheolau Sefydlog a Chadw a Dirprwyo Pwerau – Mawrth 2014

[4] Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Gwella drafft

gwybodaeth a gweithio tuag at gydymffurfio'n llawn â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd bod nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn cynyddu ac mae'n ymdrin â 50 cais ar gyfartaledd bob mis. Er bod yr amser ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi dechrau gwella tua diwedd 2018, roedd cydymffurfiaeth o 73% am y flwyddyn o'i gymharu â 84% yn 2017. Dechreuodd perfformiad mewn perthynas ag amseroedd ymateb i geisiadau am fynediad gan destun data wella tua diwedd 2018 ar ôl amrywio rhwng 83% a 89% am ran helaeth o'r flwyddyn. Roedd y gydymffurfiaeth gyffredinol â cheisiadau am fynediad gan destun data ar gyfer 2018 yn 88% o'i gymharu â 96% mewn perthynas â 2017. Cynhaliwyd adolygiad allanol o lywodraethu gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth yn gynnar yn 2018 ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella ac i gryfhau trefniadau seiberddiogelwch a gallu drwy sefydlu tîm arbenigol i hybu rheolaethau, cydnerthedd a rheoli digwyddiadau.

## Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir sy'n cael ei chefnogi gan broses gynllunio effeithiol, ac mae gwaith yn parhau i ddiweddaru cynlluniau ar gyfer ailgynllunio'r gwasanaeth

38 Archwiliodd fy ngwaith sut mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â phartneriaid ac yn pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad. Asesais hefyd pa mor dda mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio sut y bydd yn cyflawni ei amcanion a monitro cynnydd o ran darparu'r cynlluniau. Mae fy nghanfyddiadau i'w gweld isod.

39 **Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull effeithiol ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid i lywio datblygiad strategaeth**. Canfu fy ngwaith bod gwaith y Bwrdd Iechyd o ddatblygu strategaeth yn cael ei gefnogi gan ymgysylltu mewnol ac allanol effeithiol. Mae hefyd yn parhau i wella ei ddull o ymgysylltu ac mae wedi sefydlu ffrydiau gwaith ar Ddatblygu'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol/ Ymgysylltu â Staff ac Ymgysylltu a Chyfathrebu fel rhan o'i Raglen Dyfodol Clinigol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent Fwyaf a phum Bwrdd iechyd Cyhoeddus, gan sicrhau cysondeb rhwng y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) a chynlluniau Ardal a Llesiant Gwent Fwyaf. Mae Pwyllgor Partneriaeth Cyhoeddus a Llesiant y Bwrdd Iechyd yn arolygu gwaith ymgysylltu'r bartneriaeth ac mae Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn mynychu ei gyfarfod i ddarparu diweddariadau.

40 **Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull cynllunio cadarn sy'n seiliedig ar ddadansoddiad o alw a gallu gyda gwaith parhaus yn cael ei wneud i ddiweddaru modelau gwasanaeth sy'n sail i'r Strategaeth Dyfodol Clinigol.** Gydol 2017-18, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dilyn dull cynllunio clir y cytunwyd arno. Mae wedi buddsoddi mewn gallu ychwanegol yn y Tîm Cynllunio, gan gyflwyno arweinydd cynllunio ar gyfer pob is-adran er mwyn adlewyrchu'r model partner busnes ar gyfer cyllid a'r gweithlu. Gwelais dystiolaeth bod dull cynllunio IMTP y Bwrdd Iechyd yn cael ei lywio gan ddysgu a gwerthuso hefyd. Mae dadansoddiad y Bwrdd Iechyd o alw a gallu yn cefnogi cynllunio strategol, ond gwelodd fy ngwaith

Asesu Strwythuredig yn 2018 er ei fod yn datblygu ei ddull o ran dadansoddi galw a gallu, nid yw mor gryf ym maes gofal sylfaenol, eiddilwch a nyrsio ardal, ag yw mewn rhannau eraill o'r sefydliad. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i greu cynllun gweithlu trosfwaol i gefnogi'r Strategaeth Dyfodol Clinigol ac agor Ysbyty Prifysgol Grange ar amser yn 2020.

41 **Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar ddarpariaeth yr IMTP a'r strategaeth Dyfodol Clinigol.** Mae'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformio yn adolygu a monitro perfformiad yr IMTP yn rheolaidd ac awgryma tystiolaeth bod camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â pherfformiad gwael. Fodd bynnag, gwelsom nad yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni rhai o'i dargedau perfformio IMTP yn gyson. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo ei Fframwaith Darpariaeth IMTP, sy'n nodi sut mae'r sefydliad yn sicrhau darpariaeth ac yn pwysleisio pwysigrwydd perfformiad ar lefel unigolion, tîm, cyfarwyddiaeth a sefydliadol. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i asesu cynnydd, dysgu o'i berfformiad a gweithredu yn ôl yr angen. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen trefniadau llywodraethu cadarn i gefnogi darpariaeth y Strategaeth Dyfodol Clinigol gyda chyfranogiad Aelodau Gweithredol ar lefel Bwrdd Cyflawni ac is-grwpiau sy'n gyfrifol am ddarparu ffrydiau gwaith penodol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi Cyfarwyddwr Rhaglen ac wedi sefydlu amserlen prosiect i gefnogi darpariaeth y strategaeth. Canfu fy adolygiad o gynnwys yr adroddiadau cynnydd Dyfodol Clinigol eu bod yn darparu digon o wybodaeth i alluogi i gynnydd, risgiau a phroblemau gael eu monitro'n effeithiol. Yn ôl asesiad y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru mae cynnydd wrth ddarparu'r Strategaeth Dyfodol Clinigol ar y trywydd iawn.

## Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o reoli adnoddau'n effeithiol a dull da sy'n datblygu o wella cynhyrchiant, er nad yw rhai elfennau'n ddigon strategol neu fanwl bob tro ac mae angen gwella perfformiad yn erbyn rhai targedau allweddol

42 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei weithlu, ei arian a'i asedau ffisegol eraill i gefnogi defnyddio adnoddau'n effeithlon, effeithiol a darbodus. Ystyriais y trefniadau ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau hefyd a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae fy nghanfyddiadau i'w gweld isod.

43 **Mae'r Bwrdd Iechyd yn weithgar wrth reoli materion y gweithlu, ond mae cyfraddau absenoldeb salwch yn parhau'n uwch na tharged Llywodraeth Cymru ac mae angen gwella cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol, y broses arfarnu a chynllunio swyddi meddygon ymgynghorol.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael yn rhagweithiol â materion gweithlu, yn enwedig o ran absenoldeb salwch, trosiant, swyddi gwag ac arfarniadau sy'n arwain at welliant mewn dangosyddion perfformio allweddol. Mae'n rhaid i'r Bwrdd

Iechyd fodloni gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016[5] ac er bod ganddo drefniadau ar waith, mae prinder staff nyrsio'n achosi heriau parhaus. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd dull rhagweithiol o ran ymgysylltu â staff a'u lles. Er enghraifft, mae wedi datblygu Fframwaith Profiad Gweithwyr er bod hwn yn y broses o gael ei gymeradwyo gan y Tîm Gweithredol. Dengys canlyniadau arolwg staff y GIG 2018 welliannau parhaus, yn enwedig mewn perthynas ag ymgysylltu cyffredinol â staff ac eirioli staff. Mae'n tynnu sylw at rai meysydd i'w gwella, gan gynnwys bwlio ac aflonyddu gan gleifion a chydweithwyr, a hyder staff i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn. Mae'r sefydliad yn ymrwymo i ddiogelwch a llesiant staff drwy annog mynediad i staff i wasanaethau a mentrau llesiant, ac mae ei Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu'n datblygu rhaglen llesiant ar gyfer ei staff sy'n canolbwyntio ar reoli straen yn effeithiol a hyrwyddo llesiant.

44 **Ar y cyfan, mae rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd yn gadarn ac yn gwella; fodd bynnag, mae heriau wrth reoli risgiau ariannol.** Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol ym mhob un o'r tair blynedd ariannol ddiwethaf drwy fantoli'r gyllideb ac mae wedi gwneud gwarged bach bob blwyddyn. Mae'n rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb yn y flwyddyn ariannol bresennol er gwaethaf ymdopi â heriau sylweddol a bydd gofyn iddo fodloni targedau niferus, i naill ai sicrhau cyllid presennol neu i ddenu cyllid ychwanegol ar gyfer gwelliannau i wasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried bod cyfanswm o £5 miliwn mewn perygl yn ei IMTP yn ystod 2018-19, naill ai oherwydd nad yw targedau'n cael eu bodloni i sicrhau cyllid ychwanegol, neu nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'n llawn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dechrau symud oddi wrth raglenni gwella costau traddodiadol er bod peth dibyniaeth ar arbedion trafodiadol. Mae wedi datblygu fframwaith sy'n alinio perfformiad a sbardunwyr costau gydag effeithlonrwydd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn amcangyfrif y gallai arbed hyd at £22 miliwn drwy leihau lefelau salwch, costau staffio dros dro a hyd arosiadau, i lefelau meincnod. Mae wedi gweithredu eisoes i sicrhau bod llai o ddibyniaeth ar wasanaethau banc a staff asiantaeth, ond mae hyn yn parhau'n her o ystyried prinder staff mewn sawl maes gwasanaeth allweddol.

45 Mae'r gwaith caffael yn cael ei wneud gan Wasanaeth Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (tîm caffael), ar ran y Bwrdd Iechyd. Mae yna Strategaeth Gaffael Cymru gyfan, sy'n cael ei hategu gan gynllun busnes Cymru gyfan ond nid oes cynllun caffael cyffredinol gan y Bwrdd Iechyd. Yn yr un modd â chyrff GIG eraill, mae gan y Bwrdd Iechyd gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Bartneriaeth Cydwasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio ei Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog i arwain arferion caffael. Darparodd adolygiad yr Archwiliad Mewnol o Wariant Di-dâl sicrwydd rhesymol (dyddiedig 18 Mai 2018). Fodd bynnag, nododd yr adroddiad ddiffyg cytundeb lefel gwasanaeth manwl, polisïau a gweithdrefnau wedi dyddio a diffyg cydymffurfiaeth â'r weithdrefn

[5] Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) - Deddfwriaeth

Rheolaeth Ariannol. Rydym yn deall bod y tîm Caffael yn drafftio cyfres newydd o bolisïau a gweithdrefnau ar ran y Bwrdd Iechyd.

46 Mae'r tîm Caffael yn defnyddio dull partner busnes ac mae arweinwyr caffael wedi'u lleoli ym mhob is-adran i weithio gyda rheolwyr gwasanaethau a chyflenwyr i sicrhau gwerth am arian a gwella canlyniadau cleifion drwy wneud hynny. Fodd bynnag, awgryma ein cyfweliadau bod cyfle pellach ar gyfer ymgysylltu â rhai meysydd clinigol a Gwaith ac Ystadau i ddeall a oes cyfleoedd posibl i sicrhau gwell gwerth gan gontractau allweddol.

47 **Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni yn erbyn yr holl dargedau mynediad allweddol, ond mae'n mynd ati iwella ei drefniadau i sicrhau effeithlonrwydd a chynhyrchiant.** Mae rhywfaint o'r perfformiad yn parhau i achosi pryder, yn enwedig gydag amseroedd aros Damweiniau ac Achosion Brys o bedair awr a 12 awr, nifer y trosglwyddiadau o ambiwlans a oedd yn cymryd mwy nag awr a chyrraedd targed Llywodraeth Cymru i sicrhau dim achosion o dorri amodau amseroedd disgnaostig 36 wythnos ac wyth wythnos erbyn diwedd mis Rhagfyr 2018.

48 Mae'r Bwrdd Iechyd yn buddsoddi adnoddau i fynd i'r afael â meysydd lle mae tangyflawni a sicrhau canlyniadau positif. Er enghraifft, mae wedi mynd ati i sicrhau gofal iechyd doeth sy'n seiliedig ar werth ac mae ei ddull meincnodi'n nodi arbedion amlwg drwy gyfleoedd effeithlonrwydd.

49 **Mae gan y gwasanaeth gwybodeg ddulliau strategol da, ond mae angen buddsoddiad â ffocws ac arolygiaeth gryfach o effaith risgiau yn y system TG genedlaethol.** Cytunodd y Bwrdd Iechyd ar raglen amlinellol strategol bum mlynedd ar gyfer gwybodeg a gynhyrchwyd gyntaf ddiwedd 2016. Darparwyd cyllid ychwanegol o £500,000 ar gyfer diweddariadau technoleg a seilwaith yn 2017-18. Er gwaethaf y buddsoddiad ychwanegol hwn, mae angen buddsoddiad cyfalaf i ddisodli rhwydwaith TG a seilwaith sy'n heneiddio. Mae sawl risg yn parhau mewn perthynas ag argaeledd ac oedi wrth weithredu systemau TG cenedlaethol. Er enghraifft, mae'r oedi o ran System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn gyfle sydd wedi'i golli, oherwydd y diffyg gwasanaeth cymunedol dibynadwy a'r wybodaeth am gynhyrchiant.

50 **Mae angen i ddull y Bwrdd Iechyd o reoli asedau, yn enwedig dyfeisiau cyfarpar meddygol, fod yn fwy trwyadl a strategol.** Nodais rai pryderon ynghylch trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli cyfarpar a dyfeisiau meddygol, yn benodol mewn perthynas â gwaith monitro'r Bwrdd Iechyd yn ymwneud â digwyddiadau cyfarpar meddygol drwy Datix a diffyg cofrestr asedau drosfwaol.

## Mae fy rhaglen waith ehangach yn nodi bod y Bwrdd Iechyd yn ymateb i risgiau a chyfleoedd, ond ei fod yn dal i wynebu sawl her

### Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau cynhwysfawr ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol ac mae'n gwneud cynnydd cyson tuag at weithredu'r elfennau allweddol o'r weledigaeth genedlaethol. Tra bod lefelau perfformio'n well na'r cyfartaledd ar gyfer llawer o ddangosyddion, mae pwysau cynyddol ar y gweithlu yn herio cynaliadwyedd gwasanaethau meddyg teulu craidd mewn rhai ardaloedd

51 Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau gofal sylfaenol cynhwysfawr sy'n gyson â'r weledigaeth genedlaethol ac maent yn cael eu llywio gan gynlluniau Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth er bod y rhwydweithiau hyn yn gwbl aeddfed eto. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd cyson o ran darparu ei gynlluniau ac mae ei berfformiad yn cymharu'n dda â gweddill Cymru, ond mae sawl her anodd yn parhau.

52 O ran adnoddau, mae gan y Bwrdd Iechyd enghreifftiau clir o adnoddau'n symud yn agosach i gartref a'i nod yw cynyddu buddsoddiad mewn gofal sylfaenol, ond mae'r data sydd ar gael yn ei gwneud yn anodd cyfrifo'r buddsoddiad cyffredinol mewn gofal sylfaenol yn gywir. Mae heriau'r gweithlu yn bygwth cynaliadwyedd rhai arferion y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u hasesu ac mae yng nghamau cynnar profi datrysiadau.

53 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau arweinyddiaeth cadarn ond nid yw dangosyddion perfformiad presennol yn galluogi trosolwg o bob maes gofal sylfaenol ac mae yna le ar gyfer mwy o ffocws ar lefel Bwrdd ar ofal sylfaenol.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau positif i wella rheolaeth ystadau ond byddai'n elwa ar gyflwyno cynllun strategol sy'n adlewyrchu ei weledigaeth ar gyfer darpariaeth gofal iechyd yn y dyfodol

54 Mae'r Tîm Ystadau'n cyfrannu at gynllunio strategol drwy'r broses Cynllunio Tymor Canolig Integredig, ond nid oes gan y Bwrdd Iechyd Strategaeth Ystadau wedi'i chytuno. Mae'n treialu dull newydd o asesu ac adrodd ar ei ystad, ond mae hyn yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl i'w gwblhau.

55 O ran rheoli ystadau, mae yna eglurder o ran atebolrwydd, rolau a chyfrifoldebau ar gyfer Rheoli Ystadau ac mae systemau ar waith i gofnodi data asedau ac i gefnogi gwaith cynnal a chadw.

56 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wella ei waith o reoli Ystadau a Chyfleusterau mewn meysydd allweddol. Mae'n perfformio'n dda yn erbyn dangosyddion cenedlaethol o gymharu â chyfartaleddau Cymru gyfan ac mae systemau clir i reoli perfformiad er bod cyfle i wneud defnydd gwell o adborth defnyddwyr gwasanaethau ac arolygiadau ar ôl y gwaith.

57 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario cyfran uchel o'r gyllideb cynnal a chadw ar atgyweiriadau ymatebol sy'n adlewyrchu oed a chyflwr yr ystad bresennol. Mae ganddo bolisi clir ar gyfer cael gwared ar ased unwaith y bydd yn ddiangen ac mae'n defnyddio canllawiau cenedlaethol a lleol i gael gwared ar asedau.

58 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o risgiau ac yn blaenoriaethu camau drwy ddefnyddio adborth gan ddefnyddwyr. Mae'n mynd ati i sicrhau bod gan staff a chontractwyr y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol i ddarparu gwasanaeth effeithiol, ac mae rheolwyr yn cymryd camau cadarnhaol i wella lefelau boddhad staff ac absenoldeb salwch.

## Mae fy nghanfyddiadau mewn perthynas â'r Gronfa Gofal Integredig yn dangos amryw o heriau

59 Rwyf wedi cwblhau'r gwaith maes ar gyfer fy adolygiad traws-sector o'r Gronfa Gofal Integredig. Rwy'n bwriadu paratoi adroddiad cryno cenedlaethol yn gynnar yn 2019 yn amlinellu fy nghanfyddiadau Cymru gyfan. Mae fy nhîm archwilio eisoes wedi cyflwyno canfyddiadau lleol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Y negeseuon allweddol ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent Fwyaf yw

- mae'r Gronfa Gofal Integredig (y gronfa) wedi cael effaith gadarnhaol o ran uno sefydliadau ar draws Rhanbarth Gwent Fwyaf, ond mae lle i egluro ymhellach a gwella cysylltiadau rhwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r pum Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ar sail barhaus a rheolaidd.
- oherwydd natur flynyddol y gronfa, mae'r rhanbarth yn cydnabod nad yw wedi defnyddio'r gronfa'n strategol bob amser i ddatblygu gwasanaethau yn seiliedig ar angen, gyda lle i gryfhau agweddau ar y gwaith o reoli prosiectau a gefnogir gan y gronfa.
- mae penderfyniadau'n ymwneud â'r defnydd o'r gronfa wedi'u dirprwyo'n bennaf i is-grwpiau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gyda'r Byrddau Partneriaeth Strategol yn gyfrifol am ddatblygu achosion busnes ar gyfer prosiectau arfaethedig y gronfa. Ymddengys bod y dull hwn yn gweithio'n effeithiol, ond nid oes gan y Bwrdd Partneriaeth Strategol gynrychiolaeth o'r trydydd sector, sy'n cyfyngu ar eu cyfranogiad wrth ddatblygu prosiectau'r gronfa, Hefyd, mae angen gwella lefel dealltwriaeth sefydliadau partner o waith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent Fwyaf a'i is-grwpiau, gan gynnwys sut mae'r gronfa'n cael ei defnyddio a'i heffaith.
- mae yna gytundeb cyffredinol bod y gronfa'n cefnogi'r prosiectau iawn ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr gwasanaethau ond, yr un fath â byrddau partneriaeth rhanbarthol eraill ledled Cymru, ychydig iawn o brosiectau sy'n cael eu prif ffrydio i wasanaethau craidd. Mae rhanbarth Gwent Fwyaf yn ceisio dangos canlyniadau yn gliriach, ond mae hyn yn her barhaus.

## Ar y cyfan, mae’r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o’r Fenter Twyll Genedlaethol fel elfen o’i drefniadau gwrth-dwyll ond nid yw wedi adolygu’r holl ddata cyfatebol a argymhellwyd eto

60 Ymarfer paru data bob dwy flynedd yw’r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) sy’n helpu i ganfod twyll a gordaliadau trwy baru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a all fod yn dwyllodrus a gwallus. Mae’n adnodd hynod effeithiol i ganfod ac atal twyll a gordaliadau ac i helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau gwrth-dwyll a llygredd.

61 Derbyniodd y Bwrdd Iechyd y canlyniadau o ymarfer paru data 2016 ym mis Ionawr 2017 a oedd yn cynnwys 7,989 o barau data ac roedd 458 o’r rhain yn ‘barau data a argymhellwyd’. Yn Adroddiad Archwiliad Blynyddol y llynedd, nodais fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth adolygu’r parau data ond nid yw wedi adolygu parau data tair ffordd rhwng y gyflogres, taliadau credydwyr a Thŷ’r Cwmnïau. Mae’r rhain yn barau data risg uchel gan y gallant ddangos buddiannau staff heb eu datgan ac arferion llygredig posibl.

62 Ym mis Hydref 2018, cyflwynodd cyrff a oedd yn cymryd rhan ddata ar gyfer yr ymarfer paru data nesaf. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi adolygu’r 336 o barau data. Rydym yn ystyried bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o’r Fenter Twyll Genedlaethol fel elfen o’i drefniadau gwrth-dwyll ar y cyfan. Fodd bynnag, mae gwefan y Fenter yn dangos bod y parau data tair ffordd a argymhellwyd rhwng y gyflogres, taliadau credydwyr a Thŷ’r Cwmnïau wedi dechrau yn gynnar yn 2018, ond nid yw’n cofnodi bod yr adolygiadau hyn wedi’u cwblhau a bod y materion a godwyd wedi’u datrys. Mae’n hollbwysig bod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod y gwaith o adolygu’r parau data hyn yn cael ei gwblhau fel mater o frys. Mae hyn yn hynod o bwysig o ystyried bod yr adolygwr yn nodi achosion ar wefan y Fenter lle’r oedd gan staff fuddiannau mewn cwmnïau nad oedd wedi’u datgan i’r Bwrdd Iechyd. Bydd canlyniadau’r ymarfer hwn ar gael yn gynnar yn 2019.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2018

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mai 2018 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2018 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig 2018 | Rhagfyr 2018 |
| Gofal Sylfaenol | Medi 2018 |
| Adolygiad o'r Ystadau | |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2018 | Ionawr 2018 |

Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo

Mae amryw o archwiliadau perfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiad amcangyfrifedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Codio clinigol | Mawrth 2019 |
| Orthopaedeg | Hydref 2019 |
| Gwaith dilynol lleol i olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion sy'n gysylltiedig â nyrsio ardal, rheoli meddyginiaethau mewn ysbytai acíwt a gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau | Gorffennaf 2019 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2018 ffi archwilio arfaethedig o £407,146 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio sylweddol

Arddangosyn 4: risgiau archwilio sylweddol

Nododd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2018 y risgiau archwilio ariannol sylweddol ar gyfer 2018. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd i sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol cadarn ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion. | Bydd fy nhîm archwilio'n profi cofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad i sicrhau cywirdeb, rheoleidd-dra a chyfreithlondeb . | Cofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol wedi'u profi yn ôl y bwriad ac roeddynt yn gadarn. Ni chafwyd tystiolaeth o drafodion afreolaidd neu anghyfreithlon. |
| Mae'r risg o reolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob hanfod. Yn sgil y ffordd anrhagweladwy lle gallai diystyru o'r fath ddigwydd, fe'i hystyrir yn risg sylweddol. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wneir wrth baratoi datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i weld a oes unrhyw duedd;<br>• gwerthuso'r sail resymegol . | Cynnal gwaith archwilio fel a gynlluniwyd ac ni chafwyd unrhyw dystiolaeth o reolwyr yn diystyru rheolaethau. |
| Mae risg o gamddatganiad sylweddol yn sgil twyll wrth adnabod refeniw ac felly mae'n cael ei drin fel risg sylweddol. | Bydd fy nhîm archwilio yn ystyried ffrydiau incwm y Bwrdd Iechyd ac yn asesu a oes risg o gamddatganiad sylweddol yn sgil twyll sy'n gysylltiedig ag adnabod refeniw. Lle byddwn yn pennu bod risgiau o'r fath yn bodoli, byddwn yn cynnal profion penodol. | Cynnal gwaith archwilio fel a gynlluniwyd ac ni chafwyd unrhyw dystiolaeth o gamddatganiad yn sgil twyll wrth adnabod refeniw. |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae risg sylweddol y bydd y Bwrdd yn methu cyflawni ei ddyletswydd ariannol cyntaf i fantoli'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r sefyllfa ar ddiwedd mis Rhagfyr yn dangos gwell sefyllfa gyda gwarged blwyddyn hyd at hynny o £0.676 miliwn. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â dechrau'r flwyddyn lle'r oedd diffyg rhagweladwy o £15 miliwn, er nad oedd maint llawn cyllid Llywodraeth Cymru yn glir ar y pryd. Er nad oes gan y Bwrdd ddiffyg cronnus o flynyddoedd blaenorol, mae risgiau'n parhau o ran darparu cynlluniau gan eu bod yn seiliedig ar y canlynol:<br>mae'r cynlluniau arbedion ac osgoi costau presennol yn darparu'r gostyngiadau rhagweladwy mewn costau;<br>mae hyd a lled llawn pwysau ariannol gweithredol wedi'u cynnwys am weddill y flwyddyn;<br>mae darpariaeth gwasanaethau wedi gwella i fodloni targedau y cytunwyd arnynt sy'n gysylltiedig â chyllid ychwanegol ac mae'r costau ychwanegol o fewn yr amlen gyllid; ac<br>mae'r costau sy'n gysylltiedig â NICE yn parhau'n gyson o fewn y sefyllfa ariannol a ragwelir.<br>Lle bydd y Bwrdd yn methu'r ddyletswydd ariannol hon byddaf yn llunio adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol yn tynnu sylw at y methiant.<br>Mae'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd yn cynyddu'r risg y gallai penderfyniadau ac amcangyfrifon rheolwyr ddangos tuedd wrth geisio cyflawni'r ddyletswydd ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio'n parhau i fonitro sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18.<br>Os yw'r Bwrdd Iechyd yn methu cyflawni'r terfynau adnoddau tair blynedd ar gyfer refeniw a/neu gyfalaf, byddwn yn disgwyl rhoi barn amodol ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2017-18. Byddwn yn disgwyl llunio adroddiad o sylwedd hefyd i egluro sail y farn amodol ac o dan ba amgylchiadau roedd wedi codi.<br>Bydd ffocws profi fy nhîm archwilio ar feysydd o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys tuedd o ran adrodd. | Cadarnhaodd gwaith archwilio bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyraniad adnoddau refeniw blynyddol a'i darged ariannol i fantoli'r gyllideb. |
| Mae'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd Iechyd, mewn cysylltiad â'i refeniw a'i wariant cyfalaf, a'r arian parod sydd wedi'i wario, yn cynyddu'r risg y gallai penderfyniadau ac amcangyfrifon rheolwr ddangos tuedd wrth geisio adrodd o fewn y terfynau ariannol sydd wedi'u rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru. | Bydd fy nhîm archwilio yn nodi'r meysydd hynny o'r datganiadau ariannol y maent yn credu sy'n agored i duedd o ran adrodd, a chynnal profion archwilio â ffocws lle'n briodol. | Cynhaliwyd profion archwilio â ffocws fel a gynlluniwyd ac ni chafwyd unrhyw dystiolaeth o duedd o ran adrodd. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Text phone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru